

Cynllun Gweithredu Strategaeth Tai Lleol Adroddiad Cynnydd Hydref 2020

Blaenoriaeth 1: Cynyddu cyflenwad i ddarparu'r math cywir o gartrefi yn y lleoliad cywir

Allbwn	Amserlen	Sefydliad/au arweiniol	Cynnydd
<p>Cyflawni'r prinder/diffyg blynyddol o 228 o dai fforddiadwy a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) 2019 drwy gyflenwi'r mathau canlynol o ddeiliadaethau:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Cynyddu'r nifer o eiddo cymdeithasol newydd ar rent (Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) neu'r Cyngor) o 86 y flwyddyn (ii) Cynyddu nifer yr eiddo canolradd ar rent (NEW Homes neu LCC) o 57 y flwyddyn (iii) Cynyddu nifer yr eiddo perchnogaeth ganolradd (drwy ddarpariaeth adran 106 neu LCC) o 95 y flwyddyn 	Blynyddol	Cyngor Sir y Fflint a LCC Partner	<p>Hyd at 31^{ain} Gorffennaf 2020, roedd 238 gartrefi (a oedd yn cynnwys 159 o dai cymdeithasol a 79 o dai fforddiadwy) wedi'u cwblhau a'u trosglwyddo i denantiaid newydd. Mae 125 o gartrefi eraill wedi'u cymeradwyo ac maent ar y safle.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys cynlluniau arfaethedig yn Nant y Gro, Gronant a Ffordd Hiraethog a Ffordd Pandarus, Mostyn a fydd yn darparu 71 o unedau cymdeithasol pellach. Yn ogystal, mae safleoedd yn hen safle Canton Depot, Bagillt hefyd yn cael eu gwerthuso yn awr. Gyda'i gilydd, gallai'r safleoedd hyn ddarparu 121 o unedau pellach posibl.</p> <p><u>Perchnogaeth Ganolradd</u></p>

			<p><u>Gwerthiannau/Ail-werthiannau Rhannu Ecwiti Tai Teg (prynu)</u> 19/20 – 28 1/4/20 hyd yma – 10</p> <p><u>Rhentu i Brynu Tai Teg</u> 19/20 – 7 1/4/20 hyd yma – 4</p> <p>(Mae Tai Teg yn rheoli'r broses o wneud cais am eiddo perchnogaeth tai fforddiadwy adeiladu newydd ac ail-werthu Cyngor Sir y Fflint ac yn eu hysbysebu, wrth iddynt ddod ar gael)</p>
Cyflenwi 5% (10) o eiddo adeiladu newydd y flwyddyn er mwyn cyflawni'r galw am ddarpariaeth arbenigol	Blynyddol	Cyngor Sir y Fflint a LCC Partner	<p><u>Nifer yr unedau adeiladu newydd 19/20</u> LCC – 1 RhTAS - 5</p> <p><u>Nifer yr unedau adeiladu newydd er mwyn cyflawni darpariaeth arbenigol 20/21 (amcangyfrif)</u> LCC – 5 RhTAS – 4</p>
Cyflenwi 20 o addasiadau mawr i eiddo presennol y flwyddyn (pob deiliadaeth)	Blynyddol	Cyngor Sir y Fflint a LCC Partner	19/20 - 7 addasiad mawr 1/4/20 hyd yma – gwaith wedi'i ohirio oherwydd Covid 19

<p>Cynyddu'r ganran o eiddo cymdeithasol ar rent un ystafell wely o 20% (16) y flwyddyn o'r holl eiddo cymdeithasol ar rent adeiladu newydd</p>	<p>Blynyddol</p>	<p>Cyngor Sir y Fflint a Phartneriaid LCC</p>	<p><u>Nifer yr eiddo cymdeithasol un ystafell wely ar rent a gwblhawyd 19/20</u> LCC – 10 RhTAS –15 Cyfanswm - 25</p> <p><u>Nifer yr eiddo cymdeithasol ar rent un ystafell wely a gwblhawyd 20/21 (amcangyfrif)</u> LCC – 26 RhTAS – 11 Cyfanswm - 37</p>
<p>Lleihau'r nifer o eiddo gwag o 10% (50) yn ystod oes y strategaeth.</p>	<p>Mawrth 2025</p>	<p>Cyngor Sir y Fflint</p>	<p>Gyda chymorth benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi ac olrhain perchnogion presennol a helpu mewn unrhyw ffordd bosibl, rydym wedi ail-gyflwyno 26 uned i'w defnyddio:</p> <p>2019/20 – 19 eiddo 2020/21 – 7 eiddo hyd yma</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Tai ac Atal wedi datblygu Cynllun Cam 2 i gefnogi'r ymateb digartrefedd i'r pandemig Covid 19. Mae ffocws clir ar gael gafael ar gartrefi gwag er mwyn cynyddu'r opsiynau tai sydd ar gael i bobl sy'n cysgu ar y strydoedd. Mae cyllid wedi'i sicrhau i ail-ddefnyddio 10 cartref gwag yn ystod 20/21.</p>

Blaenoriaeth 1.1 Cynyddu'r cyflenwad o bob math a daliadaeth o dai fforddiadwy drwy ddatblygiadau adeiladu newydd		
Cam Gweithredu	Tasg	Cynydd
Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol LCC Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu'r capasiti datblygu yn Sir y Fflint drwy gynnwys Cymdeithasau Tai ychwanegol. • Sicrhau bod y nifer fwyaf o eiddo yn cael eu cyflenwi gan ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael. • Sicrhau rhestr wrth gefn gadarn o gynlluniau. • Sicrhau bod y math a'r deiliadaethau yn cyflawni anghenion tai lleol, sef eiddo cymdeithasol ar rent yn bennaf, wedi'i hysbysu gan Dîm Strategaeth Tai y Cyngor. 	<p>Rhagwelir y bydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cwblhau 155 o unedau yn ystod 20/21.</p> <p>Mae'r Cynllun Cyflawni Rhaglen (PDP) wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 20/21, mae dyraniad llawn y Grant Tai Cymdeithasol (SHG) wedi'i ddefnyddio ac mae gormod o enwau ar y rhestr. Dylai'r Cynllun Cyflawni Rhaglen gyflenwi tua 168 o unedau yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae yna 7 cynllun ar y rhestr wrth gefn, sydd â'r potensial i gyflenwi 314 o unedau (yn amodol ar argaeledd cyllid/cymeradwyaeth cynllunio). Mae Cyngor Sir y Fflint a'u LCC Partner yn ceisio sicrhau'r nifer fwyaf o gyfleoedd i gael cyllid Llywodraeth Cymru a chyflenwi gwahanol fathau o eiddo a deiliadaethau gan gynnwys cymdeithasol ar rent, rhent canolradd a rhentu i brynu.</p>
Rhaglen adeiladu newydd y Cyngor: RhTAS / CRT	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflawni uchelgais y Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai (CRT) i gyflenwi 50 o gartrefi cymdeithasol ar rent newydd y flwyddyn hyd at 2030 er mwyn cyflawni galw'r gofrestr tai cymdeithasol. • Sicrhau bod cyflenwi adeiladau newydd yn ychwanegu gwerth drwy fynd i'r afael â'r galw am fathau penodol o dai drwy seilio cynlluniau datblygu ar wybodaeth. • Defnyddio Grant Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru i gefnogi'r cam cyflenwi. 	<p>Mae'r Cyngor a NEW Homes yn parhau i weithio'n rhagweithiol i gynyddu'r nifer o eiddo cymdeithasol a fforddiadwy sydd ar gael i'w rhentu er mwyn cyflawni'r galw a nodwyd ar draws Sir y Fflint.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau cynnydd i'r cap benthyca er mwyn galluogi adnoddau ariannol ychwanegol i gyflawni uchelgeisiau cyflenwi'r Cyngor. • Datblygu blaengynllun cyflenwi ar gyfer y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (RhTAS) ar ôl cyflawni'r targed o 500 o gartrefi newydd. 	<p>Yn unol â pholisi tai strategol Llywodraeth Cymru, bydd y Cyngor yn gweithio gyda mwy o ffocws ar gydweithio gyda chymdeithasau tai partner i gyflenwi cynlluniau tai newydd ar y cyd.</p> <p>Mae adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ei gymeradwyo ym mis Tachwedd 2020 sy'n cyflwyno dull gweithredu'r Cyngor a NEW Homes at gyflenwi tai cymdeithasol a fforddiadwy ar ôl cwblhau contract RhTAS yn Ebrill 2021 – gan gynnwys defnyddio Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru.</p> <p>Sicrhawyd cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru i gyflenwi 4 uned o lety i gefnogi Cynllun Cam 2 ar ddigartrefedd. Bydd yr unedau yn cael eu hadeiladu gan ddefnyddio'r Dulliau Adeiladu Modern. i'w cyflawni erbyn mis Mawrth 2021.</p>
<p>Buddsoddiad NEW Homes</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi'r broses o gyflenwi eiddo fforddiadwy ar rent drwy'r RhTAS ar gyfer NEW Homes. • Sicrhau bod NEW Homes yn gwneud y mwyaf o'u gallu i fuddsoddi er mwyn cyflenwi eiddo fforddiadwy ar rent drwy ddefnyddio eu hasedau presennol. 	<p>Mae NEW Homes yn berchen ar ac yn rheoli 138 o unedau ar hyn o bryd.</p>
<p>Darparu'r nifer fwyaf o dai fforddiadwy ar safleoedd wedi'u harwain gan y</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod gofynion polisi cynllunio tai fforddiadwy'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn manteisio i'r eithaf ar ddarpariaeth briodol ar y safle. • Cefnogi ac annog ein partneriaid cyflenwi i ddefnyddio cyllid preifat a grant Rhentu i Brynu er mwyn caffael unedau gan 	<p>Mae trafodaethau yn parhau gyda datblygwyr a chymdeithasau tai partner i weithio ar y cyd gyda'r Cyngor a NEW Homes i gyflwyno cynlluniau tai a</p>

<p>farchnad drwy ofynion adran 106</p>	<p>ddeblygwyr ar gyfer rhentu a rhentu i brynu / rhannu perchnogaeth, yn ogystal â'r gofyniad cynllunio.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda datblygwyr i sicrhau bod modelau perchnogaeth fforddiadwy yn cael eu cyflenwi, er enghraifft rhannu ecwiti, pan fydd galw. 	<p>nodwyd a fydd yn darparu'r nifer fwyaf o dai cymdeithasol a fforddiadwy.</p>
<p>Archwilio arloesedd a gwerth cymdeithasol ar draws y sector</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda phartneriaid i ddefnyddio dulliau gweithgynhyrchu oddi ar y safle / Dulliau Gweithgynhyrchu Modern. • Archwilio cyfleoedd drwy bartneriaeth y fargen twf ranbarthol. • Ystyried buddsoddi mewn cynlluniau ar gyfer cartrefi aml-ghenedlaeth / hyblyg. • Cynyddu'r defnydd o werth cymdeithasol wrth gynllunio a chaffael gwasanaethau er mwyn sicrhau'r nifer fwyaf o gyfleoedd a chefnogi preswylwyr agored i niwed. 	<p>Cwblhawyd cynllun Dulliau Gweithgynhyrchu Modern cyntaf y Cyngor yn St Andrews, Garden City ym mis Awst 2020.</p> <p>Mae'r Cyngor a NEW Homes yn archwilio cyfleoedd i ddefnyddio Dulliau Gweithgynhyrchu Modern ar gynlluniau yn y dyfodol.</p> <p>Bydd lansio Fframwaith Contractwyr Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2020 yn darparu llwybr cyflenwi newydd ar gyfer cynlluniau o'r fath a sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn cael ei ymgorffori yn y broses gaffael.</p>

Blaenoriaeth 1.2 Cynyddu'r cyflenwad drwy wneud defnydd gwell o'r stoc bresennol o dai cymdeithasol		
Cam Gweithredu	Tasg	Cynydd
Stoc tai y Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal adolygiad o'r stoc a'r tenantiaethau er mwyn canfod lle mae tanfeddiannaeth neu lle mae capasiti i ail-alinio'r defnydd o stoc • Adolygu'r defnydd presennol o stoc er mwyn asesu'r defnydd gorau • Datblygu cynllun cymhelliant i annog symudiad yn y stoc lle gellir profi bod hynny'n cyflawni angen o'r gofrestr tai ac yn mynd i'r afael â thanfeddiannaeth / gorlenwi. 	Mae gan Gyngor Sir y Fflint weithgor sefydledig sy'n adolygu pob cynllun tai gwarchod er mwyn addasu eu haddasrwydd fel tai ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2021.
Stoc Cymdeithasau Tai Partner	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r defnydd presennol o stoc er mwyn asesu'r defnydd gorau yn unol â blaenoriaethau strategol 	Mae Cyngor Sir y Fflint yn parhau i weithio gyda chymdeithasau tai partner drwy'r grwpiau Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) strategol a gweithredol i nodi heriau a datblygu ffyrdd o wneud y dyraniadau gorau o fewn y stoc bresennol.
Tai Hygyrch	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu Cofrestr Tai Hygyrch ar gyfer yr holl stoc tai cymdeithasol er mwyn galluogi defnydd gwell o stoc wedi'u haddasu. • Asesu'r gofrestr i nodi lle mae cartrefi gydag addasiadau y gellir eu defnyddio. • Ymgysylltu â'r Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol mor fuan â phosibl ar bob datblygiad, er mwyn sicrhau bod pob angen hygyrch yn cael eu cyflawni. 	<p>Mae adolygiad parhaus yn cael ei gynnal o dai arbenigol, bydd y cam gweithredu hwn yn ffurfio rhan o'r adolygiad hwn.</p> <p>Mae'r gofrestr tai arbenigol yn cael ei hystyried wrth edrych ar angen tai ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy a cheisiadau cynllunio newydd.</p> <p>Mae cynlluniau tai adeiladu newydd NEW Homes a RhTAS yn cynnwys ymgynghori ar y cam cychwynol</p>

		<p>(gydag iechyd galwedigaethol Tai a'r gwasanaethau cymdeithasol) er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r gofynion tai ar gyfer pobl ag anghenion hygrychedd. O'r 20fed o Fedi, bydd Cyngor Sir y Fflint yn sicrhau y bydd datblygiadau NEW Homes / RhTAS gyda fflatiau llawr gwaelod / byngalos yn cael eu datblygu gan ddefnyddio safonau gofod ar gyfer cadeiriau olwyn yn sicrhau y gellir eu haddasu yn y dyfodol.</p>
--	--	--

Blaenoriaeth 1.3 Cynyddu'r cyflenwad drwy ddechrau ail-ddefnyddio cartrefi gwag		
Cam Gweithredu	Tasg	Cynydd
Datblygu polisiau perthnasol er mwyn gwneud y gorau o bwerau cyfreithiol	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu polisi a fydd yn galluogi i Sir y Fflint wneud y gorau o bwerau cyfreithiol gan gynnwys y potensial ar gyfer prynu gorfodol neu gymryd perchnogaeth ar sail dros dro. Archwilio adnoddau posibl gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer gorchmynion prynu gorfodol. Datblygu menter, mewn partneriaeth â'n Cymdeithasau Tai, i ail-ddefnyddio eiddo gwag er mwyn cyflawni anghenion penodol, er enghraifft ar gyfer teuluoedd mwy. 	<p>Mae gweithdrefnau newydd wedi'u cyflwyno gan y Swyddog Cartrefi Gwag er mwyn cychwyn camau Gwerthu Gorfodol ar gyfer eiddo gwag a gwerthwyd yr eiddo cyntaf mewn ocsiwn ym mis Medi 2020.</p> <p>Yn anffodus, mae menter Llywodraeth Cymru i gynorthwyo Awdurdodau Lleol gydag eiddo gwag a'u hadfer i fod yn gartrefi wedi'i gohirio oherwydd Covid 19. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir y Fflint wedi gallu cael cyngor arbenigol gan eu harbenigwr penodedig yn ystod y cyfnod hwn. Y gobaith yw y bydd y fenter hon yn ail-ddechrau'n fuan.</p>
Lleihau'r nifer o eiddo gwag	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio'n agos gyda Chymdeithasau Tai partner a Thîm y Dreth Gyngor i nodi'r eiddo hynny sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac yn achosi problemau i'r gymuned leol. 	<p>Mae data wedi'i ddarparu gan dîm y dreth gyngor ar eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir yn Sir y Fflint er mwyn gallu targedu'r eiddo hyn. Mae gweithgaredd hyrwyddo benthyciadau wedi'u targedu ar gyfer yr eiddo hwn wedi'u gohirio oherwydd Covid 19.</p> <p>Cynydd cyfyngedig sydd wedi'i wneud hefyd oherwydd dim ond 1 swyddog sy'n ymgymryd â'r holl waith o adnewyddu cartrefi gwag.</p>

		<p>Mae un gwerthiant gorfodol wedi mynd rhagddo ym mis Medi 2020.</p> <p>Bydd cyllid Llywodraeth Cymru drwy Gam 2 ymateb Covid 19 i ddigartrefedd yn hwyluso'r broses o brynu eiddo gwag i'w trawsnewid yn 10 uned llety. Bydd y Swyddog Cartrefi Gwag yn gweithio mewn partneriaeth â'r tîm Digartrefedd ac Asedau Tai i ddatblygu hyn.</p>
Darparu cymorth ariannol er mwyn ail-ddefnyddio eiddo gwag	<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi sy'n ceisio ail-ddefnyddio eiddo gwag drwy ddarparu benthyciadau fforddiadwy hyd at £25,000 yn y sector preifat. 	<p>Ers 1/4/20, mae 15 uned ar draws 6 eiddo wedi'u creu yn awr gan ddefnyddio'r benthyciad Troi Tai'n Gartrefi.</p> <p>Mae 7 uned arall ar draws 3 eiddo yn y cam adeiladu.</p> <p>Mae 2 gais wedi'u cymeradwyo i greu 2 uned ar gyfer benthyciadau.</p>

Blaenoriaeth 1.4 Cynyddu'r cyflenwad drwy'r sector rhentu preifat		
Cam Gweithredu	Tasg	Cynydd
Tîm / Swyddog penodedig y Sector Rhentu Preifat yn y Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> Ail-alinio adnoddau ac arbenigedd staffio presennol i ddatblygu cynnig gwell y Sector Rhentu Preifat ar draws Sir y Fflint. 	<p>Mae asiantaeth osod HAWS yn gweithio'n rhagweithiol yn Sir y Fflint i gynyddu nifer yr eiddo sydd gan y Sector Rhentu Preifat sydd ar gael i gyflawni'r galw am dai. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2020/21 gyda ffocws ar sut i ymgysylltu â'r Sector Rhentu Preifat a chael dealltwriaeth well o'r</p>

		rhwystrau a'r heriau maent yn eu hwynebu (CAMMS).
Datblygu cynllun gweithredu'r Sector Rhentu Preifat er mwyn sicrhau gwasanaeth effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal adolygiad o fforddiadwyedd y sector ac archwilio ffyrdd i fynd i'r afael â hwy drwy gymhellion neu ymyriadau os bydd eu hangen. • Gweithio gyda'r tîm lechyd yr Amgylchedd i wella safonau o fewn y sector. 	Bwriedir cynnal ymgynghoriad pellach gyda landlordiaid preifat i ddeall sut y gellir datblygu trefniadau gwaith mwy effeithiol i ddarparu cyfleoedd tai mwy cynaliadwy yn y sector preifat.
Darparu cynnig pwrpasol ar gyfer landlordiaid	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghori gyda landlordiaid y sector preifat drwy'r Fforwm Landlordiaid er mwyn sefydlu dealltwriaeth well o'r rhwystrau a beth fyddai'r ffactorau llwyddiant critigol ar gyfer darparu cynnig llwyddiannus. • Darparu cynigion amrywiol i Landlordiaid er mwyn cymell eu hymgysylltiad a'u hymrwymiad i'r Cyngor gan gynnwys y BOND. • Sicrhau bod y cynnig yn hyblyg yn ogystal â bod yn gadarn a chost effeithiol. 	

Blaenoriaeth 1.5 Darparu'r math cywir o gartrefi i gyflawni'r galw cynyddol am lety person sengl ac eiddo ar gyfer teuluoedd		
Cam Gweithredu	Tasg	Cynnydd
Rhaglenni adeiladu newydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen niferoedd uwch o lety ar gyfer personau sengl ac eiddo mwy fel rhan o bob datblygiad adeiladu newydd. • Asesiad parhaus o flaenoriaethau a diweddariadau rheolaidd. 	Mae'r Strategaeth Dai yn ymgynghorai ar gynlluniau cynllunio (lle mae cyfraniad tai fforddiadwy yn berthnasol) a chynghori ar gymysgedd o dai yn seiliedig ar yr angen am dai gan SARTH, Tai Teg a'r gofrestr dai arbenigol. Mae hyn yn dangos y

		<p>mathau o eiddo sydd eu hangen mewn lleoliad penodol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd (bob chwarter) gyda LCC partner i'w cynghori ar flaenoriaethau tai strategol Cyngor Sir y Fflint a chydweithio i ddatblygu'r gymysgedd orau o dai ar gyfer cynllun newydd. Rhoddir pwyslais arbennig ar yr angen am fathau llai o eiddo a'r angen i ystyried pobl ar y gofrestr dai arbenigol, sy'n cynnwys ymgeiswyr sydd angen eiddo mwy.</p>
Datblygu dulliau gweithredu arloesol	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu arfer gorau mewn ardaloedd eraill a nodi ystod o opsiynau a allai gyflawni'r galw sy'n dod i'r amlwg am unedau ar gyfer personau sengl ac unedau mwy, mewn ffordd gost effeithiol. • Nodi modelau cyflawni arloesol a all ddarparu unedau llai sy'n hyblyg ac y gellir eu haddasu i gyflawni newidiadau mewn galw yn y dyfodol. • Ystyried priodoldeb dulliau cyflawni gwahanol er enghraifft hunan adeiladu / adeiladu'n bwrpasol a dulliau cydweithredol o gyflawni'r angen. 	<p>Mae safleoedd posibl yn cael eu hystyried ar gyfer Hunanadeiladu.</p> <p>Cyllid Cam 2 Digartrefedd Llywodraeth Cymru – bydd y cyllid hwn yn darparu cynllun adeiladu cyflym yn Park Lane, Treffynnon ar gyfer llety dros dro. Cafodd ei ddatblygu gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern ac wedi'u cynllunio gyda gofod ychwanegol er mwyn galluogi hyblygrwydd yn y dyfodol.</p>
Caffaeliadau strategol	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu cronfa caffael strategol ar gyfer eiddo a fyddai'n cyflawni angen penodol iawn ac ar gyfer nifer fach o eiddo. • Gofyn i Gymdeithasau Tai partner ddefnyddio grant tai cymdeithasol i gaffael eiddo unigol pan fydd angen penodol sydd naill ai'n angen brys neu ni ellir ei gyflawni drwy'r stoc bresennol. 	<p>Mae hyn yn broses barhaus ac mae'n cael ei datblygu a'i monitro drwy'r Cynllun Cyflawni Rhaglen, mewn partneriaeth â LCC.</p>

Blaenoriaeth 1.6 Darparu'r math cywir o gartrefi er mwyn gwella cynnig a chwmpas y ddarpariaeth tai arbenigol		
Cam Gweithredu	Tasg	Cynnydd
Fframwaith troswaol / strategol ar gyfer canfod y dull cyflenwi mwyaf cost effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r opsiynau ar gyfer cyflenwi h.y. addasiadau; caffael neu adeiladu newydd a datblygu dull asesu cyffredinol er mwyn canfod yr opsiwn cyflenwi mwyaf cost effeithiol o fewn fframwaith cydraddoldeb. • Adolygu a mapio'r adnoddau sydd ar gael er mwyn cyflawni'r galw cynyddol am addasiadau. • Archwilio dull partneriaeth at ariannu a chyflenwi gan gynnwys timau Tai'r Cyngor / Grant Cyfleusterau i'r Anabl, timau Tai Cymdeithasau Tai, Cefnogi Pobl, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd Galwedigaethol, Iechyd a'r bartneriaeth y Gronfa Gofal Integredig. • Lobïo Llywodraeth Cymru i symleiddio cyllid ar gyfer addasiadau ar draws pob partner cyflenwi. 	<p>Mae'r tîm Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn cael ei ailstrwythuro ac mae prosesau'n cael eu hadolygu er mwyn darparu canlyniadau gwell i'r rhai sydd angen addasiadau.</p> <p>Fel rhan o'r adolygiad, rhoddir ystyriaeth i wella gwaith partneriaeth rhwng y gwahanol dimau sy'n gweithio i ddarparu tai arbenigol ar draws Cyngor Sir y Fflint. Bydd hyn yn cysylltu hefyd gyda'r gwaith parhaus i adolygu'r gofrestr tai arbenigol.</p>
Cyflawni anghenion tai pobl ag anabledau	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i gyflenwi fel partneriaeth er mwyn cyflawni anghenion pobl ar y gofrestr tai arbenigol. • Gwneud y defnydd gorau o addasiadau er mwyn helpu i gynnal tenantiaethau a lleihau pwysau cynyddol ar y gofrestr tai. • Ystyried caffaeliadau strategol posibl i gyflawni anghenion achosion cymhleth iawn. • Sicrhau bod eiddo wedi'u haddasu yn cael eu cynnwys ar bob datblygiad adeiladu newydd Cymdeithasau Tai er mwyn cyflawni anghenion y gofrestr arbenigol. • Archwilio darparu eiddo wedi'u haddasu ar gynlluniau wedi'u harwain gan y farchnad. 	<p>Mae'r gofrestr tai arbenigol yn cynnal ceisiadau am eiddo wedi'u haddasu a theuluoedd sydd angen eiddo mawr (5+ ystafell wely). Bydd partneriaeth SARTH yn parhau i weithio'n agos i gyflawni anghenion aelwydydd agored i niwed ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau partner. Maent yn cwrdd bob chwe wythnos fel arfer, i adolygu eiddo gwag presennol yn erbyn y gofrestr tai arbenigol i nodi eiddo y gellir eu haddasu. Defnyddir y gofrestr i ddangos angen ar gamau cynnar datblygu cynllun ac mewn ceisiadau cynllunio (CAMMS).</p> <p><u>Y Gofrestr Tai Arbenigol</u> Cafodd 19 o ymgeiswyr eu hail-gartrefu o'r Gofrestr yn ystod 2019/20.</p>

		Ers 1/4/20, mae 5 o ymgeiswyr wedi'u hail-gartrefu hyd yma.
Cyflawni anghenion pobl ag anghenion iechyd cymhleth	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu perthynas ragweithiol gyda'r sector lechyd i wella dulliau cyfathrebu gyda'r Strategaeth Dai ynghylch anghenion tai y rhai yn eu gofal. Darparu llety pontio fforddiadwy er mwyn lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal – Glan y Morfa – drwy sicrhau cyllid ac ymgymryd â gwaith angenrheidiol. Gweithio gyda'r tîm Atal Digartrefedd i hysbysu'r ddarpariaeth a nodi arfer gorau. 	Cwblhau cynllun Glan y Morfa. Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Uwch Brif Swyddogion / Gwasanaethau Cymdeithasol / Rheolwr Gwasanaethau Rhaglenni Tai er mwyn nodi cyfleoedd i fynd i'r afael â grwpiau blaenoriaeth, e.e. lleihau llety y tu allan i'r sir, ac yn y blaen.
Darparu'r math cywir o dai i gyflawni anghenion pobl hŷn	<ul style="list-style-type: none"> Deall anghenion tai pobl hŷn. Archwilio modelau tai amgen ac arloesol ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys eiddo pontio'r cenedlaethau neu fodolau cydweithredol, sy'n helpu i gadw pobl hŷn yn egnïol ac yn iachach am gyfnod hwy. Darparu darpariaeth arbenigol, er enghraifft gofal ychwanegol a thai â chymorth ar gyfer y bobl hŷn hynny ag anghenion gofal gan gynnwys dementia. Adolygu'r stoc bresennol o dai cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn yn benodol er mwyn sicrhau y gallant gynnal tenantiaethau. Archwilio'r potensial i gynnwys eiddo addas ar gyfer oedrannau fel rhan o ddatblygiadau'r farchnad adeiladu newydd. 	Mae adolygiad yn cael ei gynnal o stoc tai gwarchod presennol Cyngor Sir y Fflint a bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2021. Mae gan Sir y Fflint bedwar cynllun gofal ychwanegol. Mae cynllun pellach posibl ym Mwcle yn cael ei ystyried. Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd yn ystyried model Gofal Ychwanegol Ysgafn.

Blaenoriaeth 1.7 Darparu'r math cywir o lety ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr		
Cam Gweithredu	Tasg	Cynnydd
Cyflawni'r angen am leiniau preswyl	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu nifer y lleiniau yn unol ag Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir y Fflint drwy gynlluniau wedi'u harwain gan y farchnad ac adnewyddu'r safle sy'n eiddo i'r Cyngor. 	Nododd yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) (2016) bod angen heb ei gyflawni ar gyfer o leiaf 19 o

		leiniau. Mae dau gais cynllunio gan Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer safleoedd preifat yn cael eu cyflwyno ar gyfer 9 llain ychwanegol a bydd gan y safle Riverside newydd gapasiti o 30 (cynnydd o +10).
Darparu safle tramwy o fewn y Sir	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi ac asesu safleoedd posibl i ddarparu safle tramwy yn Sir y Fflint. • Gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer safle tramwy a sicrhau grant gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi'r ddarpariaeth. 	Bydd darparu'r safle tramwy yn ffurfio rhan o ystyriaeth y Cynllun Datblygu Lleol.
Rheoli'r safle sy'n eiddo i'r Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu modelau rheoli gwahanol ar gyfer y safle sy'n eiddo i'r Cyngor. • Ail-gynllunio a chyflenwi'r gwaith o adnewyddu'r safle er mwyn darparu lleiniau modern. • Datblygu polisi dyrannu ar gyfer y safle. 	Contractwr wedi'i bennu. Datblygwyd Polisi Dyrannu ar gyfer y safle. Mae'r safle wedi'i adnewyddu gan ddefnyddio grant cyfalaf Llywodraeth Cymru ac mae'r prosiect wedi'i gwblhau yn awr.

Blaenoriaeth 2: Darparu cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn parhau i fyw yn y math cywir o gartref

Allbwn	Amserlen	Sefydliad/au arwain	Cynnydd
<p>Cyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Lleol Sir y Fflint ar Ddigartrefedd.</p>	<p>Mawrth 2024</p>	<p>Cyngor Sir y Fflint</p>	<p>Mae gwaith yn parhau ar lefel leol a rhanbarthol. Mae'r pandemig Covid 19 wedi creu pwysau ychwanegol o ran digartrefedd ac mewn ymateb i hyn, y flaenoriaeth bresennol yw cyflawni Cynllun Cam 2 ac ymateb i'r sefyllfa wrth iddi ddatblygu.</p> <p>Cynhelir adolygiad llawn o gynlluniau gweithredu lleol a rhanbarthol yn ystod 2^{il} hanner 20/21 er mwyn sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei dargedu at y meysydd blaenoriaeth priodol.</p>
<p>Datblygu 'hwb' Digartrefedd i Bobl Ifanc</p>	<p>Mawrth 2024</p>	<p>Cyngor Sir y Fflint</p>	<p>Yn ystod y 12 mis nesaf, bydd Cyngor Sir y Fflint yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu Hwb Digartrefedd i Bobl Ifanc a fydd yn ceisio darparu nifer o unedau llety hunangynhwysol gyda chymorth ar y safle.</p> <p>Bydd astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei hystyried i hysbysu'r dull gweithredu hwn, a allai ddarparu swyddfa a gofod cymunedol er mwyn sicrhau dull cyd-gysylltiedig o fewn model tîm amlddisgyblaeth.</p>

Lleihau'r nifer o bobl mewn llety dros dro o 50% (33) yn ystod cyfnod y cynllun	Mawrth 2024	Cyngor Sir y Fflint a Chymdeithasau Tai Partner	<p>Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i leihau'r nifer o bobl mewn tai dros dro yn Sir y Fflint (sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau adran 68 o dan Ddeddf Tai Cymru 2014). Fodd bynnag, mewn ymateb i'r pandemig Covid 19, mae'n ofynnol i bob Cyngor ddarparu llety ar gyfer unrhyw un sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ar ôl 23^{ain} Mawrth 2020, pan gyhoeddwyd y cyfyngiadau symud.</p> <p>Cyn 23^{ain} Mawrth 2020, roedd 11 aelwyd mewn llety dros dro yn Sir y Fflint. Mae'r nifer wedi cynyddu'n sylweddol gyda llawer o bobl na fyddent yn destun dyletswyddau o'r fath, yn cael eu cartrefu yn awr yn unol â'r ymateb iechyd y cyhoedd a digartrefedd coronafeirws. Ar ei gyfnod prysuraf, roedd 42 o aelwydydd wedi'u cartrefu o ganlyniad i'r canllawiau newydd. Mae Cynllun Cam 2 wedi'i ddatblygu i sicrhau bod pobl yn derbyn cymorth i ganfod llety hirdymor sefydlog.</p>
Darparu safle tramwy ar gyfer y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr.	Mawrth 2022	Cyngor Sir y Fflint	Gweler 1.7 uchod.
Darparu un Gofal Ychwanegol yn ystod cyfnod y Strategaeth.	Mawrth 2024	Cyngor Sir y Fflint a Chymdeithasau Tai Partner	Gofal Ychwanegol Treffynnon, mewn partneriaeth â Wales and West – bwriedir ei agor yn ystod Gwanwyn 2021.

Blaenoriaeth 2.1 Lleihau digartrefedd drwy ddulliau atal		
Cam Gweithredu	Tasg	Cynnydd
Gweithio ar draws y rhanbarth gyda phartneriaid i atal digartrefedd	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio ar draws y rhanbarth i ddatblygu Strategaeth Ranbarthol ar Ddigartrefedd ar draws yr Awdurdod Lleol, gan uno adnoddau i ddarparu ymyriadau cyffredin pan fo hynny'n briodol ac yn gost effeithiol. Datblygu dealltwriaeth well o achosion digartrefedd i hysbysu datblygiad yr ymyriadau cywir drwy gasglu gwybodaeth ar y cyd, ac yn rhanbarthol. 	Mae gwaith atal yn parhau i fod yn flaenoriaeth i aelwydydd sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref. Mae aelwydydd yn cael eu nodi cyn gynted â phosibl a threfnu cymorth i ddatrys y problemau a nodwyd a lleihau'r risg o ddigartrefedd. Gwneir y gwaith hwn drwy nifer o swyddogaethau, sy'n cynnwys y Tîm Cefnogi Pobl a'r Tîm Atebion Tai (CAMMS).
Gweithio gyda phartneriaid yn Sir y Fflint i atal digartrefedd	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu Cynllun Gweithredu Lleol ar gyfer digartrefedd er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â materion lleol. Datblygu mesurau ataliol drwy ddarparu cefnogaeth tenantiaeth a rheoli argyfyngau er mwyn galluogi pobl i gynnal eu tenantiaethau. 	

Blaenoriaeth 2.2 Lleihau'r galw am lety dros dro		
Cam Gweithredu	Tasg	Cynnydd
Darparu llety addas i gyflawni anghenion pobl ddigartref	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu modelau cyflenwi gwahanol, er enghraifft Tai yn Gyntaf. Datblygu 'hwb' i ddarparu gwasanaethau amrywiol ar gyfer pobl ddigartref, gan gynnwys gwelyau argyfwng a gwasanaethau cymorth. Gweithio'n agos gyda'r Strategaeth Tai a phartneriaid datblygu i hwyluso'r broses o ddarparu llety hyblyg ac addas. 	<p>Mae ymarfer saib ac ystyried ar gyfer y Prosiect Tai yn Gyntaf Pobl Ifanc (Tai Ni) wedi'i gynnal ac mae'r prosiect wedi'i ohirio oherwydd Covid 19.</p> <p>Agorwyd Canolfan Glanrafon yn llwyr ar 17 Chwefror 2019. Mae The Wallich wedi'u comisiynu i reoli'r cyfleuster a gwneud yn siŵr bod yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cael mynediad at y ddarpariaeth yn derbyn cymorth yn nhermau budd-daliadau, tai a lles. Mewn ymateb i'r pandemig Covid 9, mae Canolfan Glanrafon wedi datblygu i</p>
Cynyddu argaeledd llety symud ymlaen	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal adolygiad o'r stoc bresennol ac archwilio opsiynau ar gyfer cynyddu'r cyflenwad o lety symud ymlaen. Sicrhau bod blaenoriaethau comisiynu yn ymgorffori'r cymorth angenrheidiol sydd ei angen i gynnal tenantiaethau. 	

		<p>fod yn ddarpariaeth 24/7 fel ymateb brys dros dro i ddiogelu pobl sy'n byw ar y stryd. Mae cymorth a llety ychwanegol yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod gan y rhai a fyddai fel arall yn cysgu ar y stryd, yn cael mynediad at gyfleusterau ar gyfer hunan-ynysu ac i gefnogi pwysau yn sgîl y cyfyngiadau symud a chadw pellter cymdeithasol (CAMMS).</p>
--	--	--

Blaenoriaeth 2.3 Darparu'r math cywir o gymorth i'r bobl fwyaf agored i niwed		
Cam gweithredu	Tasg	Cynnydd
Comisiynu gwasanaethau cymorth yn strategol	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu'r Cynllun Comisiynu Lleol gan ymgorffori blaenoriaethau'r Strategaeth Ranbarthol ar Ddigartrefedd er mwyn sicrhau dull gweithredu cydlynol. Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Comisiynu cymorth ar gyfer grwpiau blaenoriaeth: Pobl ifanc ddigartref; Pobl sy'n gadael y Carchar; Pobl sy'n cysgu ar y stryd; a phobl ag Anghenion Cymhleth. 	<p>Mae gwaith yn cael ei wneud i atgyfnerthu'r trefniadau gweithio presennol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn cyflenwi canlyniadau cynaliadwy i ddefnyddwyr gwasanaeth.</p> <p>Er bod Covid 19 wedi oedi cynnydd yn rhai o'r meysydd hyn, mae'r pandemig hefyd wedi atgyfnerthu perthnasoedd gwaith gyda phartneriaid allweddol ac wedi galluogi i drefniadau gweithio newydd gael eu datblygu rhwng sefydliadau o randdeiliaid allweddol.</p> <p>Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi'r Cynllun Cam 2 sy'n canolbwyntio ar ail-gartrefu pobl sy'n cysgu ar y stryd a phobl sy'n profi digartrefedd yn ystod y pandemig. Mae adolygiad o wariant grant Cymorth Tai hefyd wedi nodi tanwariant a fydd yn cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau cymorth sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Cam 2.</p>
Gweithio gyda phartneriaid a thimau eraill yn y Cyngor i sicrhau bod cymorth ar gael.	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol e.e. iechyd i ddarparu pecynnau cymorth ar gam cynnar drwy brotocolau ar y cyd. Gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a chydweithwyr iechyd i sicrhau byw'n gynaliadwy. Gweithio gyda phartneriaid strategol i sicrhau capasiti a bod cymorth digonol ar gael er mwyn osgoi oedi annerbyniol wrth gynnig darpariaeth i'r unigolyn. 	

Blaenoriaeth 2.4 Darparu ystod o gymorth ariannol a chymdeithasol		
Cam gweithredu	Tasg	Cynnydd
Sicrhau ystod o gynnyrch ariannol i gynorthwyo pobl i gael mynediad at a pharhau yn eu cartref.	<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo a datblygu cynnyrch perchnogaeth fforddiadwy, gan gynnwys Rhannu Ecwiti; Cymorth Prynu a Rhentu i Brynu. Hyrwyddo cymorth rhent preifat drwy'r BOND. Datblygu mynediad at becynnau dodrefnu cychwynnol fforddiadwy. Darparu cyngor rheoli ariannol a mynediad at gynnyrch ariannol gyda'r nod o leihau'r risg o ôl-ddyledion rhent / troi allan. 	<p>Mae cynnyrch perchnogaeth fforddiadwy amrywiol ar gael drwy weithio gyda LCC partner a thrafod gyda datblygwyr preifat wedi'u sicrhau o fewn cyfraniadau cynllunio adran 106.</p> <p>Mae eiddo yn cael eu hysbysebu gyda Tai Teg sydd hefyd yn rheoli'r gofrestr tai fforddiadwy.</p>

		Mae eiddo rhentu i brynu yn cael eu darparu gan LCC partner gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru. Mae yna 21 o eiddo Rhentu i Brynu yn y Cynllun Cyflawni Rhaglen presennol (yn amodol ar gais cynllunio). Mae cyllid Cymorth Prynu ar gael, a fydd yn galluogi 1 eiddo (20/21).
--	--	---

Blaenoriaeth 2.5 Darparu cymorth i bobl hŷn naill ai i aros yn eu cartref eu hunain neu i symud i lety mwy addas		
Cam gweithredu	Tasg	Cynnydd
Adolygu'r SARTH i ddeall anghenion tai pobl hŷn mewn tai cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu cynllun gyda'n Cymdeithasau Tai partner i fynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn ar SARTH. • Datblygu dealltwriaeth o'r galw am addasiadau er mwyn gallu cynllunio adnoddau yn y dyfodol. • Cysylltiadau gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol; cartrefi Gofal Preswyl; Gofal Ychwanegol a thai â chymorth i ganfod opsiynau symud ymlaen. 	Mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o dai gwarchod sy'n cynnwys aelodaeth o'r portffolios Tai ac Asedau a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2021.
Datblygu dealltwriaeth o'r gofynion tai ehangach ar gyfer pobl hŷn	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghori â grwpiau diddordeb i nodi materion allweddol, rhwystrau a chyfleoedd posibl ar gyfer cynllun gweithredu. • Adolygu cymorth tenantiaeth a photensial cymhellion i annog pobl i symud i gartref llai o faint. 	

Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd cartrefi

Allbwn	Amserlen	Sefydliad/au arwain	Cynnydd
Lleihau'r nifer o aelwydydd yn y sector preifat yn Sir y Fflint sydd mewn tlodi tanwydd, o 10.1% i 8% yn ystod cyfnod y strategaeth	Mawrth 2024	Cyngor Sir y Fflint	Mae gwelliannau'n cael eu gwneud i gartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd, gan gynnwys cyngor ar newid tariffau, gosod systemau gwresogi effeithlonrwydd ynni, ymestyn y grid nwy presennol a gwelliannau i sgorau Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) aelwydydd. Bydd y Cyfyngiadau Symud yn cael effeithiau nad ydynt yn hysbys eto at allu aelwydydd i fforddio tanwydd a bydd angen cynnal arolwg o gyflwr y stoc er mwyn canfod cymhareb tlodi tanwydd y Sir.
Cwblhau rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru 100%	Mawrth 2024	Cyngor Sir y Fflint a LCC Partner	O fis Mawrth 2019, roedd 4573 eiddo yn cydymffurfio â rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru gyda 1995 eiddo o'r 4573 hyn yn pasio yn amodol ar fethiant derbyniol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gohirio'r adroddiad ar ffigurau 2020 oherwydd Covid 19.

Blaenoriaeth 3.1 Gwneud y gorau o safonau a dulliau cyflawni effeithlonrwydd ynni

Cam gweithredu	Tasg	Cynnydd
Benthyciadau ynni adnewyddol y sector preifat	<ul style="list-style-type: none"> Gwneud y defnydd gorau o gynnyrch benthyciadau ar gyfer perchen-feddianwyr er mwyn sicrhau bod eiddo o 	Mae proses newydd wedi'i sefydlu lle gall perchen-feddianwyr gael mynediad at gymorth i ariannu gwres canolog

	<p>safon dda drwy eu gwneud yn effeithlon o ran ynni a dileu peryglon.</p>	<p>newydd a gwelliannau i'r cartref. Mae'r broses hon yn cael ei chefnogi gan gyllid Cartrefi Clyd, cyllid Argyfwng, y fenter gwres adnewyddadwy a chronfa benthyciadau Llywodraeth Cymru. Drwy ddefnyddio cyfuniad o'r cyllid sydd ar gael, gellir cyflenwi system wresogi heb unrhyw gost i'r perchenfeddiannwr.</p>
<p>Rhaglen cysylltu nwy ar gyfer eiddo tai cymdeithasol heb gysylltiad nwy</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda Wales and West Utilities i ehangu'r rhwydwaith nwy er mwyn darparu darpariaeth wresogi fwy cyfleus a chost effeithiol ar draws pob deiliadaeth. 	<p>Mae'r Tîm Prosiect Effeithlonrwydd Ynni Domestig wedi parhau i fod mewn cyswllt llawn gyda Wales and West Utilities yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud ac wedi sicrhau bod rhaglen o gysylltiadau nwy o'r prif gyflenwad yn cael eu trefnu i'w darparu cyn gynted ag y byddai gwaith yn ail-ddechrau, gan dargedu eiddo y nodwyd mewn arolygon yn y gorffennol bod ganddynt systemau gwresogi aneffeithlon.</p>
<p>Ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni i breswylwyr agored i niwed ym mhob math o ddeiliadaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r safleoedd strategol mewn cymunedau y mae angen eu hail-ddatblygu. 	<p>Nodwyd rhaglen o gynlluniau ynni adnewyddadwy i'w gosod mewn cydweithrediad â'r gronfa Cartrefi Clyd. Disgwylir i'r rhaglen hon orgyflenwi oherwydd bod arbedion costau sydd wedi golygu ei bod yn bosibl targedu mwy o eiddo na'r hyn a ystyriwyd yn wreiddiol. Mae safleoedd pellach yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu i'w cyflawni yn y dyfodol, yn amodol ar argaeledd cyllid.</p>

Cyflenwi'r Gronfa Cartrefi Clyd	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor wedi sicrhau £3 miliwn i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn Sir y Fflint drwy wella effeithlonrwydd drwy, er enghraifft: gosod systemau gwresogi newydd neu gael mynediad at y rhwydwaith nwy. 	Mae'r Tîm Prosiect Effeithlonrwydd Ynni Domestig wedi rhagori ar y targed eleni drwy gyflenwi o dan y Gronfa Cartrefi Clyd, yn ogystal ag ehangu cronfa argyfwng a gwaith ar sail ffioedd ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol. Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda chwmnïau cyfleustodau a Llywodraeth Cymru wedi galluogi i hyd yn oed mwy o aelwydydd i elwa ar systemau gwresogi effeithlon, inswleiddio ac ynni adnewyddadwy. Mae hyn wedi galluogi i Gyngor Sir y Fflint leihau tldi tanwydd a'r ôl-troed carbon ar draws y sir.
Rhaglen Arbed am Byth	<ul style="list-style-type: none"> Rhaglen Llywodraeth Cymru sydd wedi'i thargedu'n ofodol, sy'n canolbwyntio ar ffenestri a drysau ac inswleiddio waliau allanol, er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn y sector preifat. 	Mae rhaglenni ym Mhenyffordd a Mostyn wedi'u cwblhau, mae rhaglen yn Ffynnongroyw yn agos at gael ei chwblhau. Mae'r Tîm Prosiect Effeithlonrwydd Ynni Domestig yn ymwneud ag asesiad ar ôl gosod, er mwyn penderfynu ar effeithiolrwydd y mesurau newydd a darparu cyngor a chymorth pan fydd angen.

Blaenoriaeth 3.2 Gwella ansawdd a safon llety yn y sector preifat		
Cam gweithredu	Tasg	Cynnydd
Cartrefi Cynnes a Diogel – prosiect 2025 sy'n dod â grŵp gwirfoddol o bobl a sefydliadau at ei gilydd, sy'n gweithio gyda diben	<ul style="list-style-type: none"> Annog gwahanol dimau i feddwl yn fwy eang wrth ymgymryd â'u rolau o ddydd i ddydd, er mwyn gwella cartrefi pobl yn y sector preifat. 	Oherwydd cyfyngiadau Covid 19, bu ond yn bosibl ymgysylltu â phreswylwyr dros y ffôn yn bennaf. Cynhaliwyd ymgynghoriadau gan y tîm Prosiect Effeithlonrwydd Ynni

a rennir sef diddymu'r anghydraddoldeb iechyd yng Ngogledd Cymru		Domestig mewn partneriaeth â Cymru Gynnes, er mwyn sicrhau bod prosiect Cartrefi Cynnes a Diogel yn cael ei gyflenwi'n barhaus. Darparu cymorth i gael mynediad at wasanaethau er enghraifft parseli bwyd, dosbarthu bwyd, casglu presgripsiwn ac yn y blaen, yn ogystal â chymorth ar arbedion ar gyngor am dariffau a newid cyflenwr, cymorth dŵr, mesurau effeithlonrwydd, synwryddion mwg, synwryddion carbon deuocsid a chymhorthion ac addasiadau.
Rhentu Doeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda Landlordiaid i hybu Rhentu Doeth Cymru a gwella safonau'r stoc rhentu preifat. 	Bwriedir cynnal ymgynghoriad pellach gyda landlordiaid preifat i ddeall sut y gellir datblygu trefniadau gweithio mwy effeithiol er mwyn cyflenwi cyfleoedd tai mwy cynaliadwy yn y sector preifat.

Blaenoriaeth 3.3 Cwblhau rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2020 ar draws yr holl stoc tai		
Cam gweithredu	Tasg	Cynnydd
Stoc y Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau gwelliannau amgylcheddol erbyn 2020 a nodi cyllid i ymgymryd â'r gwaith allanol. 	Mae Sir y Fflint yn parhau i gwblhau cynlluniau Gwaith Amgylcheddol amrywiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau estyniad cychwynnol o 12 mis i'r dyddiad cwblhau o Ragfyr 2020.
Stoc Cymdeithasau Tai partner	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau gwelliannau amgylcheddol erbyn 2020. 	Sicrhaodd Clwyd Alyn (CA) gydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru ym mis Mawrth 2017, ac maent wedi gwneud cynnydd sylweddol yn

		<p>lleihau'r methiannau derbyniol. Fodd bynnag, fe wnaeth CA uno â'r Gymdeithas Dai Pwylaidd yng Ngwynedd yr wythnos ddiwethaf, ac nid yw eu stoc yn cyflawni'r Safon. Mae CA yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni cydymffurfiaeth.</p> <p>Mae Wales and West Housing (WWH) wedi cynnal cydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), gyda lefel isel iawn o fethiannau derbyniol. Buddsoddwyd mwy nac £11.5 miliwn yn 2019. Yn ystod y flwyddyn, darparodd WWH bron i 400 o geginau, newydd, 220 o ystafelloedd ymolchi, mwy na 40 o brosiectau toeon, bron i 470 o brosiectau ffenestri, drysau a llinellau to a thua 250 o brosiectau gwaith daear a phrosiectau allanol. Mae WWH wedi cwblhau mwy na 450 o addasiadau, sydd wedi galluogi i breswylwyr barhau i fyw yn eu cartrefi presennol wrth i'w hamgylchiadau newid.</p> <p>Mae Grŵp Cynefin (GC) yn datgan bod 100% o gartrefi wedi pasio Safonau Ansawdd Tai Cymru, yn amodol ar fethiannau derbyniol (Adroddiad Blynyddol 2019/20). Mae gan GC raglen fuddsoddi sy'n ceisio lleihau eu nifer o fethiannau derbyniol er mwyn</p>
--	--	---

		sicrhau bod tenantiaid yn byw mewn cartrefi fforddiadwy o ansawdd da (Cynllun Corfforaethol 2019/24).
--	--	---

Blaenoriaeth 3.4 Addasu dull cydweithredol at baratoi ar gyfer y cynnydd yn y galw am addasiadau i eiddo er mwyn galluogi i breswylwyr allu parhau i fyw yn eu cartrefi		
Cam gweithredu	Tasg	Cynnydd
Pennu amcanion strategol priodol ar gyfer addasiadau, sy'n canolbwyntio ar les ac annibyniaeth	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu partneriaeth sy'n ymgorffori pob partner gyda chyllid ar gyfer addasiadau, gan gynnwys: <ol style="list-style-type: none"> Cyllideb Cyfrif Refeniw Tai y Cyngor Grant Cyllid Anableddau y sector preifat; Gofal a Thrwsio, ENABLE ar gyfer addasiadau bach a mawr ar gyfer y rhai yn y sector preifat. Gall Cymdeithasau Tai gael mynediad at Grantiau Addasiadau Ffisegol ar gyfer tenantiaid presennol. 	Bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses adolygu, a amlinellir yn 1.6 (t.13).
Gwella'r wybodaeth am y galw am addasiadau	<ul style="list-style-type: none"> Crynhoi ystod o ddata amrywiol gan bob partner er mwyn cael dealltwriaeth well o alw yn y dyfodol. 	
Cysylltu'r systemau ar gyfer rheoli a chyflawni addasiadau	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu polisïau tai wedi'u haddasu ar y cyd ar gyfer pob partner, fel rhan o'r Grŵp Tai Arbenigol. Adolygu'r safonau gwasanaeth ar gyfer addasiadau yn unol â Llywodraeth Cymru. Ystyried sut y gellir defnyddio pecyn offer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn Sir y Fflint. 	

Blaenoriaeth 3.5 Gwella safon eiddo adeiladu newydd a adeiladwyd gan y Cyngor a Chymdeithasau Tai		
Cam gweithredu	Tasg	Cynnydd
Defnyddio Safonau Tai Sir y Fflint	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu a gwerthuso'r safonau'n barhaus er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn berthnasol ac yn cyfrannu at yr agenda effeithlonrwydd ynni ehangach. • Ystyried cyflwyno gofynion pellach, er enghraifft paneli solar / PV, pwyntiau gwefru ceir trydan. 	Mae Safon Tai Sir y Fflint yn cael ei hadolygu yn awr gan y Cyngor yn unol ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ofynion Ansawdd Datblygu. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn dysgu gan y cynllun Garden City, a adeiladwyd gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern a byddant yn archwilio'r defnydd o fodolau effeithlonrwydd ynni ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.
Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod safonau ansawdd cyson yn cael eu cyflawni mewn cynlluniau mewnol ar draws ystod o fathau safonol o dai sydd mor hyblyg â phosibl er mwyn darparu ar gyfer y rhan fwyaf o anghenion preswylwyr. 	Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y Gofynion Ansawdd Datblygu yn awr. Bydd hyn yn darparu'r cyfle i godi safonau.
Cyflawni gwahanol ddulliau adeiladu	<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladu eiddo newydd gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy, gan gynnwys ffrâm bren / Paneli Strwythurol wedi'u Hinswleiddio (SIP), a gwella sgorau'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) fel rhan o RhTAS. • Datblygu cyfleoedd caffael drwy gydweithio gyda Chymdeithasau Tai partner i gyflenwi dulliau adeiladu newydd. • Datblygu'r defnydd o weithgynhyrchu oddi ar y safle er mwyn lleihau gwastraff a dulliau adeiladu cyflymach. 	Yn y dyfodol, bydd cynlluniau tai y Cyngor yn ceisio blaenoriaethu Dulliau Adeiladu Modern yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu tai yn y dyfodol. Bydd cyllid cyfalaf Cam 2 Digartrefedd yn darparu unedau ar gyfer aelwydydd digartref, a bydd y rhain yn cael eu hadeiladu gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern (Park Lane x 4 uned a Duke Street x 2 uned). Rhagwelir y bydd y rhain yn cael eu cwblhau yn ystod Gwanwyn 2021.